

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) gael ei osod ac y caniateir i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") os yw Offeryn Statudol y DU (OS) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Gosododd Llywodraeth Cymru SICM mewn perthynas â Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 ("Rheoliadau 2018") ar 26 Tachwedd 2018.¹
3. Gosodir y SICM hwn yn unol â Rheol Sefydlog 30A.3.
4. Gosodwyd Rheoliadau 2018 gerbron dau Dy'r Senedd ar gyfer eu sifftio ar 20 Tachwedd 2018. Gellir dod o hyd i'r Rheoliadau yn:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-marine-environment-amendment-eu-exit-regulations-2018>

5. Yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2018, ystyriodd Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin y rheoliadau ac argymhellodd y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn berthnasol.² Hefyd, adroddodd Pwyllgor Craffu Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi (Is-Bwyllgor B) y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn berthnasol.³

Crynodeb o'r offeryn statudol a'i amcan

6. Amcan yr offeryn statudol yw mynd i'r afael â'r canlynol:

(a) methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol; a

(b) diffygion eraill;

sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel y darperir yn unol â Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, Rheoliadau Amgylchedd Morol \(Diwygio\) \(Ymadael â'r UE\) 2018](#), 26 Tachwedd 2018

² Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin, [Degfed Adroddiad Sesiwn 2017-19](#), 6 Rhagfyr 2018, HL 1794

³ Pwyllgor Craffu Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi (Is-Bwyllgor B), [Wythfed Adroddiad Sesiwn 2017-19](#), 6 Rhagfyr 2018, HL 244

7. Yn benodol, mae'r offeryn statudol yn gwneud diwygiadau i:
- (a) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") (Rhan 2 o'r OS);
 - (b) Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 (Rhan 3 o'r OS);
 - (c) Penderfyniad Cyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2017/48 (Rhan 4 o'r OS).

Darpariaeth berthnasol i'w gwneud gan yr OS

8. Mae'r gwelliannau a wnaed i Ddeddf 2009 gan Reoliadau 2018 yn ymwneud â'r darpariaethau canlynol:
- (a) adran 60(8) – i adlewyrchu gwelliannau i ddeddfwriaeth datganoli'r Alban o dan Ran 3 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018;
 - (b) adran 76(2) – i sicrhau bod modd gweithredu'r darpariaethau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd;
 - (c) adran 123(5) – i sicrhau bod modd gweithredu'r darpariaethau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd;
 - (d) adran 141 – i ddileu'r diffiniad o 'third country vessel.';
 - (e) adran 244(1) – i ddarparu y bydd llongau Aelod-wladwriaethau'r UE a llongau o Gibraltar yn cael eu trin fel llongau o drydedd wlad.
9. Mae'r newidiadau a nodir ym mharagraffau 8(c) i (e) yn ymwneud â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, a allai fod yn destun Bil y Cynulliad Cenedlaethol. Y darpariaethau hyn yn Rheoliadau 2018 sy'n destun y SICM hwn.

Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon?

10. Mae'r newidiadau a wneir gan Reoliadau 2018 fel ag y maent yn ymwneud â Deddf 2009 yn ymwneud â:
- (a) ailosod cyfeiriadau at "gyfraith yr UE" gyda chyfeiriadau at "gyfraith yr UE a ddargedwir" (yn adran 123 (5)) a
 - (b) y diffiniad o long trydydd gwlad (yn adrannau 141 a 244(1)).

11. Ystyrir ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ran Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn.

Sut mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn wahanol i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru

12. Mae'r SICM hwn yn ailadrodd peth o gynnwys SICM Llywodraeth Cymru ond mae'n canolbwyntio ar y darpariaethau perthnasol yn yr OS (sef Rhan 2) sydd i fod yn destun cynnig cydsyniad.

Y rheswm dros y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ychwanegol hwn

13. Ar 26 Tachwedd 2018, ysgrifennodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig⁴ at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan ddweud:

"O ystyried swm mawr y ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl ar yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser pwysig y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod unrhyw aelod yn gallu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar yr OS hwn, a byddwn yn hapus i gymryd rhan mewn dadl o'r fath."

14. Felly, mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cael ei ddarparu yn unol â Rheol Sefydlog 30A.3 er mwyn galluogi cynnig i gael ei gyflwyno fel bod modd ceisio cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch a ddylid cynnwys darpariaeth berthnasol yn yr offeryn statudol hwn.

Suzy Davies AC
31 Rhagfyr 2018

⁴ Yn dilyn ad-drefnu Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2018, daeth Lesley Griffiths AC yn Weinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.